Y Comisiwn Etholiadol

**Trosolwg – DU a GI**

Refferendwm ar y system bleidleisio Seneddol 2011

# Trosolwg o fenthyciadau ar gyfer ymryrchwyr refferendwm

Mae'r ddogfen hon ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm cofrestredig sydd eisiau gwybod sut y rheoleiddir benthyciadau a chyfleusterau credyd eraill

Cynnwys:


Beth rydyn ni'n ei olygu gan fenthyciadau

Pwy all fod yn fenthyciwr

Cofnodi a datgan benthyciadau

## Termau ac ymadroddion rydyn ni'n eu defnyddio

Rydyn ni'n defnyddio'**rhaid**' pan ydyn ni'n cyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydyn ni'n defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau rydyn ni'n eu hystyried i fod yn isafswm ar gyfer arfer da, ond nad ydyn nhw'n ofynion cyfreithiol.

Does dim rhaid ichi ddilyn y canllawiau hyn, ond os ydych chi, fel arfer byddwch chi'n gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein hagwedd tuag at orfodi

Os nad ydych chi'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol efallai byddwch chi neu eich mudiad yn agored i sancsiynau sifil neu droseddol. Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch agwedd y Comisiwn tuag at orfodi ar www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

# Trosolwg o fenthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr

## Mae'r ddogfen hon ar gyfer:

Ymgyrchwyr refferendwm cofrestredig sydd eisiau gwybod sut y rheoleiddir benthyciadau a chyfleusterau credyd eraill

## Mae hyn yn cynnwys:

- Beth rydyn ni'n ei olygu gan fenthyciadau
- Pwy all fod yn fenthyciwr
- Cofnodi a datgan benthyciadau

## Dogfenni cysylltiedig:

- Cyflwyniad i ymgyrchu mewn refferendwm
- Sefyllfaoedd a dulliau – Caniatâd ar gyfer ymgyrchwyr refferenda

## Papurau arbenigol

- Papur arbenigol: Gwarantau a gwarannau

# 2

# Crynodeb

Rheoleiddir benthyciadau, cyfleusterau credyd a gwarannau a roddir i ymgyrchwyr refferendwm cofrestredig gan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA).

Mae hyn yn golygu, wrth gytuno ag unrhyw un o'r trafodion hyn, bod rhaid ichi wirio a allwch chi ei dderbyn yn ogystal â'i gofnodi a mewn achosion penodol ei ddatgan i ni.

Mae'r trosolwg hwn yn egluro'r rheolau, gan ddweud wrthych ble gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

# Cyflwyniad

O dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), mae rheolaeth ar ymgyrchwyr cofrestredig mewn refferenda. Maen nhw'n yndrin â rhoddion, benthyciadau a gwariant sy'n perthyn i'r ymgyrch.

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r rheolau ar fenthyciadau a chyfleusterau credyd eriall.

Mae rhaid cofnodi rhai rhoddion penodol a'u datgan inni arôl y refferendwm. Rydyn ni'n cyhoeddi'r adroddiadau hyn mewn cofrestr ar ein safwe.

Gall y rheolau ar fenthyciadau amrywio ar gyfer amryw refferenda. Dylech chi ddarllen ein canllawiau sy'n benodol i refferenda i weld a oes newidiadau i'r canllawiau hyn.

Mae'r rheolau ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn wahanol, gan eu bod yn adrodd inni bob chwarter a nid yn unig ynghylch etholiadau neu refferenda. Gallwch chi ddod o hyd i ganllawiau eraill ar gyfer pleidiau gwleidyddol ar ein safwe.

I gael rhagor o wybodaeth ar y rheolau a phryd mae angen ichi gofrestru gyda ni, gweler y ddogfen hon:

- Cyflwyniad i ymgyrchu mewn refferendwm

Pwysig

# Pa drafodion sy'n cael eu trin?

Dim ond trafodion rydych chi'n eu cytuno mewn cysylltiad â'ch gwariant ymgyrchu, a sydd â gwerth arwynebol o fwy na £500 sy'n cael eu trin.

Cynhwysir y trafodion dilynol:

- Benthyciadau o arian
- Cyfleusterau credyd, fel cardiau credyd a gorddrafftiau.
- Gwarannau a gwarantau ar gyfer rhwymedigaethau ymgyrchwr i rywun arall.

Yn y canllawiau hyn, rydyn ni'n defnyddio'r term "benthyciadau"i gyfeirio at bob un o'r trafodion hyn.

Dydy'r rheolau ddim yn ymdrin â benthyciadau a gytunwyd ar gyfer pwrpasau y tu allan i'r ymgyrch. Er enghrafft, gorddrafft sy'n bodoli ar gyfer eich corff cyfan.

Am ragor o wybodaeth ar wariant yn ystod yr ymgyrch a chyfnodau sydd o dan reolaeth, gweler y ddogfen hon:

- Trosolwg o ymgyrchoedd refferendwm

4

## Gyda phwy allwch chi gytuno benthyciad?

Mae rhaid chi dderbyn rhoddion oddi wrth roddwyr a ganiateir yn unig. Cyn eich bod yn cytuno ar fenthyciad, mae rhaid ichi sicrhau bod y benthyciwr yn ganiataol. Mae cytuno ar fenthyciad nad yw'n ganiataol yn gallu bod yn drosedd.

Hefyd dylech chi wneud gwiriadau rheolaidd i sicrhau bod eich benthyciwr o hyd yn ganiataol. Mae hyn oherwydd bod rhaid i'r benthyciwr aros yn ganiataol am holl gyfnod eich bod yn gofrestredig gyda ni.

Am ragor o wybodaeth ar ganiatâd, gweler y ddogfen hon:

- Caniatâd ar gyfer ymgyrchwyr refferenda

## Beth ydy benthyciwr ganiataol?

Benthyciwr a ganiateir yw:

- Unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar Gofrestr Etholwyr DU, gan gynnwys etholwyr tramor.
- Mwyafrif y cwmnïau sydd wedi'u cofrestru yn y DU.
- Undeb Llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU.
- Cymdeithas Adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU.
- Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (LLP) sydd wedi'i chofrestru yn y DU.
  sy'n cynnal busnes yn y DU.
- Cymdeithas Lesiant sydd wedi'i chofrestru yn y DU.
- Cymdeithas anghorfforedig sy'n seiliedig yn y DU a sy'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU.

Mae rhaid ichi beidio â chytuno benthyciadau ag ymddiriedolaethau, er y gallwch chi dderbyn rhoddion oddi wrth rai ymddiriedolaethau penodol.

Mae rhaid ichi beidio â derbyn benthyciadau oddi wrth blaid wleidyddol, oni bai eich bod wedi cael eich enwi fel yr ymgyrchwr arweiniol yn y refferendwm.

## Sut ydych chi'n penderfynnu gwerth benthyciad?

| Math o fenthyciad | Gwerth |
|---|---|
| Benthyciad o arian | Y cyfanswm y byddwch chi'n ei fenthyg |
| Cyfleuster credyd | Y mwyafswm y gallwch chi ei fenthyg |
| Gwarant (trafodaeth gysylltiedig) | Y swm y byddai'r benthyciwr yn atebol amdano pe byddai diffyg yn digwydd |

Os yw'r benthyciad yn caniatau i log gael ei ychwanegu i'r cyfanswm rydych chi'n ei fenthyg, does dim angen cynnwys hyn yng ngwerth y benthyciad.

## Beth ydych chi'n ei wneud os ydych chi'n cael benthyciad sy'n anghaniataol?

Pwysig

Os nad yw benthyciwr yn ganiataol neu os yw'n mynd yn ganiataol, mae'r drafodaeth yn annilys. Does ganddo ddim effaith gyfreithlon a mae rhaid ichi ad-dalu unrhyw arian sydd arnoch chi i'r benthyciwr, ynghŷd ag unrhyw log, ar unwaith.

Os ydych chi wedi derbyn unrhyw warant neu warannau, ffoniwch ni yn syth os gwelwch yn dda. Bydd angen inni roi cyngor llawn ichi ar yr hyn y bydd rhaid ei wneud yn eich achos neilltuol chi.

6

# Pa gofnodion sydd angen ichi eu cadw?

Pan ydych chi'n cytuno ar fenthyciad heblaw am warannau neu warant, mae rhaid ichi gofnodi:

- Enw a chyfeiriad y benthyciwr.
- Os yw'r benthyciwr yn gwmni, eu rhif cwmni cofrestredig.
- Gwerth y benthyciad.
- Y dyddiad y cytunwyd ar y benthyciad.
- Y dyddiad mae'r benthyciad i gael ei ad-dalu (neu ddatganiad ei fod yn amhenodol).
- Y gyfradd log – neu os yw'r gyfradd yn amrywio, sut mae'n mynd i gael ei amcangyfrif.
- A oes gwarannau o unrhyw fath wedi'u rhoi am y benthyciad.

Mae rhaid ichi gofnodi cyfeiriad y benthyciwr fel mae'n cael ei ddangos ar y gofrestr statudol berthnasol. Os yw'r benthyciwr yn etholwr tramor, mae rhaid ichi gofnodi ei gyfeiriad cartef. Mae hyn oherwydd na fydd cyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholwyr.

Os yw'r benthyciwr yn gymdeithas anghorfforedig, mae rhaid ichi gofnodi cyfeiriad y brif swyddfa, gan nad oes cofrestr i gyfeirio ati.

Os yw'r benthyciwr wedidarparu gwarant neu warannau, gweler Papur arbenigol: Gwarantau a gwarannau am fanylion ynghylch yr hyn y bydd angen ichi ei gofnodi.

Am ragor o wybodaeth ar ba gofrestrau sydd angen eu gwirio, gweler y ddogfen hon:

- Caniatâd ar gyfer ymgyrchwyr refferenda

## Sut ydych chi'n cofnodi benthyciadau anghaniataol?

Am fenthyciadau anghaniataol mae rhaid ichi gofnodi:

- Yr un manylion â benthyciadau caniataol (gweler yr adran flaenorol).
- Manylion ynghylch y modd rydych chi wedi delio â'r drafodaeth. Er enghraifft, sut rydych chi wedi ad-dalu'r benthyciad.

# Pa fenthyciadau sydd angen ichi eu datgan?

Pwysig

Mae rhaid ichi ddatgan:

- Unrhyw fenthyciadau anghaniataol.
- All permissible loans over £7,500.
- Pob rhodd a benthyciad caniataol sy'n adio i wneud cyfanswm o fwy na £7,500 oddi wrth yr un ffynhonnell yn yr un cyfnod refferendwm.

# Sut ydych chi'n datgan benthyciadau?

Mae rhaid ichi ddatgan benthyciadau inni ar ôl y refferendwm, fel rhan o'ch cofnod gwariant, gan ddefnyddio'r manylion rydych chi wedi'u cofnodi.

Mae'r dyddiad mae rhaid ichi ddatgan inni yn ei erbyn yn dibynnu ar faint ydych chi wedi'i wario ar eich ymgyrch.

Byddwn ni'n cyhoeddi dyddiadau ar gyfer pob refferendwm yn ein canllawiau sy'n benodol i refferenda. Sut bynnag, fel canllaw, dangosir y canllawiau cyffredinol isod.

Am ragor o wybodaeth ar wariant ac ar ddatgan, gweler y ddogfen hon:

- Trosolwg o wariant refferendwm

Ydy'r gwariant ar eich ymgyrch yn **£250,000 neu'n is?**

Adroddwch o fewn **3 mis** o ddiwedd yr etholiad neu'r refferendwm.

Ydy'r gwariant ar eich ymgyrch yn **uwch na £250k?**

Adroddwch o fewn **6 mis** o ddiwedd yr etholiad neu'r refferendwm.

Efallai byddwch chi'n agored i gamau gorfodi os nad ydych chi'n cyflwyno'ch cofnod yn brydlon.

.

# 8

## Sut y gallwn ni helpu

Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn y dogfenni cyfarwyddyd ein bod wedi'u hawgrymu yn y ddogfen hon, neu allwch chi weld ystod lawn ein canllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein safwe.

Os yw'n haws, gallwch chi gysylltu â ni hefyd ar un o'r rhifau ffôn neu un o'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydyn ni yma i'ch helpu, felly cysylltwch os gwelwch yn dda.

Ffoniwch ni ar:

- **Lloegr**: 020 7271 0616 pef@electoralcommission.org.uk
- **Yr Alban**: 0131 225 0200 infoscotland@electoralcommission.org.uk
- **Cymru**: 029 2034 6800 infowales@electoralcommission.org.uk
- **Gogledd Iwerddon**: 028 9089 4020 infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ymwelwch â ni ar www.electoralcommission.org.uk

Rydyn ni'n croesawu adborth ar ein canllawiau – ebostiwch ni ar: pef@electoralcommission.org.uk

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

Am wybodaeth ar gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall neu mewn fersiwn print-mawr neu Braille cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol os gwelwch yn dda:

Ffôn: 020 7271 0500

Ebost: publications@electoralcommission.org.uk